

RHAGARWEINIAD

Brodorion o Ogledd America oedd hynafiaid gwyllt twrcïod domestig. Credir bod yr enw 'twrci' yn deillio o ddryswch; tybiwyd yn wreiddiol fod yr adar yn fath o gombác, y mae 'turkey-cock' yn enw arall ar ei gyfer. Daethpwyd â thwrcïod i Sbaen gyntaf yn yr 16^{eg} ganrif, a buan yr ymledasant ar draws Ewrop.

Mae twrci'n gig maethlon iawn. Mae'n uchel ei brotein ac yn isel ei fraster, yn benodol o ran braster dirlawn. Ar yr un pryd, mae'n llawn fitaminau B a mwynau hanfodol, yn cynnwys sinc a seleniwm. Mae nodweddion iachus cig twrci yn nodwedd bwysig i'w hamlygu wrth farchnata.

Mae nifer y twrcïod a gynhyrchir yn y DU yn lleihau bob blwyddyn. O'r 17 miliwn o dwrcïod a gynhyrchwyd yn y DU yn 2006, aeth rhyw 10 miliwn i'r farchnad Nadolig. Ceir rhyw 150 o gynhyrchwyr cofrestredig ar gyfer twrcïod yng Nghymru, yn cyflenwi mwy na 300,000 o adar bob blwyddyn. Mynwy yw'r brif sir yng Nghymru o ran magu twrcïod.

Mae cynhyrchu twrcïod yn y DU wedi'i rannu'n ddau:- cynhyrchu trwy gydol y flwyddyn (GYF) a chynhyrchu tymhorol. Ar gyfer marchnad y Nadolig y mae'r olaf yn bennaf. Cynhyrchwyr tra effeithiol ar raddfa fawr yw'r prif gynhyrchwyr trwy'r flwyddyn, e.e. Bernard Matthews a Cranberry Foods. Mae'r farchnad dymhorol yn rhoi mwy o gyfle i gynhyrchwyr ar raddfa fach, a dyma ganolbwynt y daflen hon.

SYSTEMAU CYNHYRCHU

Yn gyffredinol, disgrifir systemau cynhyrchu twrcïod dan dri phennawd bras:

Amgylchedd confensiynol / dan reolaeth – fel arfer, mae'r rhain yn amgylcheddau ar raddfa fawr a than lawer o reolaeth, er mwyn cynhyrchu i'r eithaf. Dyma'r systemau a ddefnyddir gan y cynhyrchwyr GYF mawr.

Ysgubor / Ysgubor bolion – fel rheol, mae'r rhain ar raddfa lai na systemau confensiynol, ac yn aml yn defnyddio ysgubor neu adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill yn ystod gweddill y flwyddyn. Yn gyffredinol, ychydig yn unig o awtomeiddio a geir, felly ceir mwy o fewnbwn gan bobl nag a geir mewn systemau confensiynol.

Mae cynnyrch **maes a buarth** yn aml wedi'i integreiddio â systemau ysgubor bolion. Mae gan yr UE reoliadau llym ynglŷn â'r term "cynnyrch maes a buarth", ac mae angen i gynhyrchwyr sicrhau bod eu system yn cydymffurfio â'r rhain os ydynt am ddefnyddio'r term. Maent yn cynnwys: rhaid i'r stoc dan do beidio â bod yn uwch na 25kg o bwysau byw / m² a rhaid i bob aderyn allu mynd at o leiaf 4m² o dir sydd wedi'i orchuddio'n bennaf gan dyfiant. Rhaid i dwrcïod maes a buarth fod yn 70 diwrnod oed o leiaf pan gânt eu lladd.

O fewn y systemau rheoli hyn, mae gan gynhyrchwyr hefyd ddewis ynglŷn â ph'un a ddylent fridio eu hadar eu hunain ynteu brynu stoc ifanc. Os prynant y stoc, rhaid hefyd iddynt benderfynu ynglŷn ag oedran yr adar pan fyddant yn eu prynu. Os magant adar sy'n ddiwrnodau oed (twrcïod ifainc), bydd angen eu cadw dan do mewn amgylchedd glân, sych, di-awel sydd wedi'i wresogi hyd nes y byddant wedi tyfu plu. Unwaith bod eu plu wedi tyfu'n llawn, nid oes angen gwres ychwanegol arnynt, ond mae arnynt angen lle cynnes, sych a di-awel o hyd i glwydo.

Mae llawer o ffermwyr yn dewis prynu twrcïod diwrnod oed a magu'r adar ar gyfer marchnad y Nadolig. I gynhyrchu adar traddodiadol o ansawdd uchel sy'n tyfu'n araf ac â phlu tywyll, mae angen prynu'r adar ifainc ym Mai neu Fehefin.

BRIDIAU / RHYWOGAETHAU

Ar hyn o bryd, cynhyrchir rhyw 10 o rywogaethau o dwrcïod yn y DU. Ar gyfer cynnyrch ar raddfa fach nad yw'n ddwys, dylid dewis aderyn sy'n tyfu'n araf. Mae'r Norfolk Black, y Bronze cysefin a'r Bourbon yn rhywogaethau poblogaidd yn y DU. Mae'r cyfan o'r rhain yn tyfu'n araf ac yn cynhyrchu cig blasus sy'n addas ar gyfer y farchnad breimiwm.

BWYD A DŴR

Dylid defnyddio bwydydd priodol ar gyfer twrcïod, er sicrhau'r cydbwysedd priodol o faetholion. Mae angen bwydydd gwahanol ar wahanol adegau o dwf yr anifeiliaid, gan gychwyn â briwsion cychwynnol, yna pelenni cychwynnol, yna pelenni tyfu, ac yn olaf belenni gorffen.

Mae'n hollbwysig fod twrcïod yn yfed digon o ddŵr. Rhaid bob amser iddynt gael dŵr glân.

COSTAU

Mae costau cynhyrchu'n amrywio'n fawr, yn ôl ffactorau megis: graddfa'r cynnyrch, gwresogi, rhywogaeth yr adar, p'un a yw'r cynnyrch yn un rhyw neu beidio, pwysau terfynol, costau bwydo a chyfansoddiad y dognau. Fel canllaw, bydd cynhyrchu adar gwynion ar raddfa fach yn costio rhyw £15 am bob aderyn, yn codi i ryw £18 yr aderyn ar gyfer twrcïod *bronze*. Nid gwaith rhad yw cynhyrchu, felly mae'n hanfodol (ac yn bosibl) cael pris premiwm am adar cartref. Mae prisiau cyfredol ar gyfer twrcïod a archebir ymlaen llaw ar gyfer Nadolig 2008 yn gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr yn amrywio o £8/kg hyd at fwy na £15/kg (DS – ar gyfer adar parod y mae'r prisiau hyn, felly rhaid cynnwys costau lladd a pharatoi).

LLADD

Caiff cynhyrchwyr sy'n magu llai na 10,000 o adar y flwyddyn ac yn gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf ladd yr adar ar eu ffermydd eu hunain, ar yr amodau canlynol:

- bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) a'r Awdurdod Lleol wedi cael gwybod;
- bod camau iechyd a diogelwch wedi'u cymryd yn yr adeilad, a bod y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol wedi cymeradwyo;
- A bod y sawl sy'n mynd i ladd yr adar â **Thrwydded Gofrestredig** ar gyfer lladd twrcïod â'r cyfarpar penodol sydd i'w ddefnyddio. Sylwch – mae trwyddedau ar gyfer lladdwyr yn benodol iawn i'r rhywogaeth a hefyd i'r cyfarpar y cynhaliwyd yr asesiad arno.

Yn achos cynhyrchwyr mwy, rhaid i'r adar fynd i ladd-dy cofrestredig. Mae rhestr o'r lladd-dai sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru ar gyfer twrcïod i'w gweld ar wefan yr FSA.

IECHYD A LLES

Dylech archwilio'r holl adar o leiaf ddwywaith y dydd, i sicrhau y cewch hyd i unrhyw broblemau cyn gynted ag y bo modd. Os ceir gormod o dwrcïod, neu os byddant dan bwysau (e.e. prinder bwyd neu ddŵr, gormod o wres), efallai y byddant yn pigo ei gilydd, hyd yn oed i'r graddau eu bod yn troi'n ganibaliaid.

Gall amrywiaeth eang o broblemau iechyd effeithio ar dwrcïod. Mae'n hollbwysig eich bod yn trafod unrhyw arwyddion o afiechyd â'ch milfeddyg cyn gynted ag y gwelwch hwy. Mae sicrhau arfer da o ran glanweithdra, rheolaeth a bio-ddiogelwch yn sylfaenol er mwyn rhyddhau'r risg o afiechydon. Dyma rai o'r prif afiechydon sy'n effeithio ar dwrcïod:

Llid y trwyn a'r bibell wynt ar dwrcïod (haint firws metaniwm ar adar) – mae hon yn broblem o bwys mewn systemau confensiynol, ond yn llai felly i gynhyrchwyr tymhorol. Mae brechlynnau ar gael, ond mae eu heffeithiolrwydd yn amrywio.

Coccidiosis – organeb cell barasitig sengl sy'n mynd yn bla ar wal perfeddyn yr aderyn lletyol. Mae coccidistatigau ar gael, ond mae eu heffeithiolrwydd yn amrywio. Mae cadw gwasarn mor sych ag sydd bosibl a diheintio'r siediau'n drylwyr ar ôl i'r adar fynd yn hanfodol.

Histomoniasis (pen du) – a achosir gan barasit protosoau. Mae'r symptomau'n amrywio, ond yn aml yn peri i i'r croen dan y pig a chroen y pen dywyllu (felly'r enw cyffredin 'pen du'). Nid oes dim triniaeth drwyddedig ar gyfer y cyflwr hwn. Mae bioddiogelwch da yn allweddol wrth atal y clefyd hwn, a hynny'n cynnwys sicrhau nad ydych yn prynu stoc ond oddi wrth gyflenwyr sydd ag enw da.

Ffliw adar – hyd yma, ni fu hwn yn broblem fawr i gynhyrchwyr twrcïod yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen i'r holl gynhyrchwyr fod yn ymwybodol o risg y clefyd, a chreu cynllun wrth gefn rhag ofn y ceir heintiad.

DEDDFWRIAETH

Mae lles twrcïod (a'r holl anifeiliaid eraill ar ffermydd) wedi'i warchod trwy Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a thrwy Reoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Cymru) 2007. Mae'r "Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw – Twrcïod" yn amlinellu'r safonau isaf ar gyfer arfer da y dylai'r holl gynhyrchwyr anelu atynt.

Rhaid i gynhyrchwyr sydd â mwy na 50 o adar gofrestru eu daliad ar Gofrestrfa Defra ar gyfer Dofednod ym Mhrydain Fawr (ffôn: 0800 634 1112 neu ewch i <https://secure.poultry.defra.gov.uk/wps/portal/!ut/p/.scr/Login>)

MARCHNADOEDD

Cydamseru cynhyrchu twrcïod i adeg frig y galw, tua'r Nadolig, yw'r allwedd i lwyddiant. Bydd llawer o gynhyrchwyr ar raddfa fach yn tyfu'r twrcïod i gyflenwi archebion – ar ôl y flwyddyn gyntaf, mae hyn yn hawdd, gan y bydd cwsmeriaid bodlon, fel rheol, yn gofyn am aderyn ar gyfer y Nadolig nesaf yn fuan ar ôl bwyta aderyn y flwyddyn hon. I gynhyrchwyr newydd, bydd hysbysebu'n lleol yn angenrheidiol. Mae lledaenu'r neges ar lafar yn effeithiol iawn, ac mae defnyddio'r fewnwyd a hysbysfyrddau sydd gan gyflogwyr lleol yn ffordd effeithiol a rhad o hyrwyddo eich cynnyrch. Mae angen i gynhyrchwyr annog eu cwsmeriaid i archebu eu twrcïod cyn gynted ag y bo modd, i beidio â chael eu siomi.

MWY O DDEUNYDD DARLLEN / FFYNONELLAU O WYBODAETH

Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn cefnogi a hyrwyddo cynhyrchwyr twrcïod yn y DU. Mae gan yr Undeb wefan benodol ar gyfer twrcïod: www.ukturkeys.co.uk

www.poultrysite.com – gwefan sydd wedi'i neilltuo i bob agwedd ar gynnyrch dofednod, yn cynnwys twrcïod, gyda gwybodaeth fuddiol am ddulliau cynhyrchu a chlefydau.

Er 2007, mae safon cynhyrchu ar gyfer Twrcïod Prydeinig o Ansawdd mewn grym, fel y gall cynhyrchwyr cydnabyddedig ddefnyddio logo'r Tractor Coch ar eu cynnyrch. Mae'r safon ar gael ar www.redtractor.org.uk ac yn rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol.

Y Cyngor Dofednod Prydeinig – www.poultry.uk.com – cymdeithas fasnach ar gyfer y sector dofednod yn y DU.

Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol / Defra provide yn rhoi gwybodaeth am y gofynion o ran trwyddedu pobl ac adeiladau ar gyfer lladd anifeiliaid –

www.defra.gov.uk/animalh/welfare/farmed/laughter/guidance.htm

Mae'r Gymdeithas Lladd Trugarog (HSA) wedi cyhoeddi llyfryn defnyddiol ar y gofynion o ran lladd cyfreithiol a thrugarog. Mae'r HSA hefyd yn cynnal cyrsiau ar ladd twrcïod mewn modd diogel a thrugarog, a all arwain at gael Trwydded Gofrestredig ar gyfer lladd. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.hsa.org.uk.